**EITEM RHIF AR Y RHAGLEN**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 26 Chwefror 2013 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Pennaeth Cyllid ac Asedau |
| **Teitl:** | Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2013/14 a Dangosyddion Darbodus 2013/14 i 2015/16 |

## 1 Beth yw byrdwn yr adroddiad?

1.1 Mae'r adroddiad yn dangos sut bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn pennu'r polisïau o fewn y rhain y mae swyddogaeth y Trysorlys yn gweithredu. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth hon ac ar y Dangosyddion Darbodus.

## 2 Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Cod Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus bob blwyddyn. Mae angen penderfyniad felly i gymeradwyo'r argymhellion isod.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013/14.

3.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013/14 (Atodiad 1)

3.3 Bod y Cyngor yn cymeradwyo pennu Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2013/14, 201415 a 2015/16 (Atodiad 1 Atodyn A).

3.4 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Darpariaeth Refeniw Lleiaf (Atodiad 1 Adran 7).

3.5 Bod y Cyngor yn cymeradwyo defnyddio Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol (Atodiad A Atodyn B).

## 4 Manylion yr Adroddiad

### Cefndir

4.1 Mae Rheoli'r Trysorlys yn golygu gofalu am arian y Cyngor, sy'n rhan hanfodol o waith y Cyngor oherwydd mae rhyw £0.5bn yn mynd trwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn.

4.2 Ar unrhyw adeg, mae gan y Cyngor o leiaf £20m mewn arian ac felly mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael yr enillion gorau posibl heb roddi'r arian mewn perygl, a dyna pam rydym yn buddsoddi arian gyda nifer o sefydliadau ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor yw:

- Cadw'r arian yn ddiogel (diogelwch);
- Sicrhau ein bod yn cael yr arian yn ôl pan fyddwn ei angen (hylifedd);
- Sicrhau ein bod yn cael cyfradd enillion dda (arenillion).

### Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2013/14

4.3 Pennir Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS) ar gyfer 2013/14 yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n pennu cyfyngiadau ar weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ac y dangos bod benthyciadau'r Cyngor yn fforddiadwy.

### Dangosyddion Darbodus:

4.4 Mae dangosyddion Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y Cynllun Cyfalaf diweddaraf. Mae llinellau ychwanegol wedi eu cynnwys i ddangos effaith y Cynllun Corfforaethol. Mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro ac yn medru newid wrth i fwy o fanylion ddod yn hysbys.

4.5 Mae dangosyddion y Cyfrif Refeniw Tai yn seiliedig ar Gynllun Busnes y Stoc Dai.

4.6 Nodir y Dangosyddion Darbodus unigol a argymhellir ar gyfer eu cymeradwyo yn Atodiad 1 Atodyn A.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn caniatáu i'r Cyngor leihau ei gostau benthyca ac yn rhyddhau cyllid ar gyfer ei flaenoriaethau buddsoddi.

## 6 Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

6.1 Nid oes goblygiadau cost yn deillio o ganlyniad i bennu'r Dangosyddion Darbodus. Pwynt Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yw cael yr enillion gorau o fewn fframwaith risg sy'n cael ei reoli'n briodol.

## 7 Pa ymgynghori a fu?

7.1 Mae Cynllun Cyfalaf a Chyllideb Refeniw'r Cyngor wedi eu paratoi ar ôl ymgynghori â Phenaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Cyngor.

7.2 Mae Cynllun Busnes y Stoc Dai, cyllidebau refeniw a chyfalaf wedi eu cyflwyno i aelodau Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Bydd ymgynghori hefyd gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych ar y cynigion.

7.3 Adolygwyd y Datganiad Strategaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 09 Ionawr 2013.

7.4 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda'i ymgynghorwyr rheoli trysorlys, Arlingclose Ltd.

**Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

7.5 Mae Rheoli'r Trysorlys yn golygu gofalu am symiau arwyddocaol o arian ac felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, i sicrhau bod enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn ddarbodus.

7.6 Mabwysiadodd y Cyngor God Ymarfer diwygiedig CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (Tach 11) yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2012. Mae'n ofyniad dan y Cod hwnnw bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys bob blwyddyn ariannol.

7.7 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol a allai weld buddsoddi £134m i gyflawni ei flaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n hanfodol bod gan y Cyngor swyddogaeth rheoli'r trysorlys effeithiol a chadarn er mwyn cynnal y buddsoddiad hwn a'r holl weithgareddau eraill.

## 8 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

8.1 Mae Rheoli'r Trysorlys yn rhywbeth sydd â risgiau annatod fel yr amlinellir yn y Datganiad Strategaeth. Mae gan y Cyngor bolisi rheoli risg ond mae'n amhosibl dileu'r risgiau hyn yn llwyr.

## 9 Pŵer i wneud y Penderfyniad

9.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn pennu'r gofyniad i awdurdodau lleol bennu Dangosyddion Darbodus ac yn gofyn i'r Cyngor gydymffurfio gyda Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol sydd wedi ei gynhyrchu gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).